**LC645**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn cynnwys gofynion manwl sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu canolfannau preswyl i deuluoedd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

A hwythau wedi cael cyfle i edrych ar fersiwn ddrafft gynnar o'r rheoliadau, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi cael eu hystyried. Yn y diwygiadau a wnaethpwyd, fodd bynnag, cododd un gwall drafftio.

Yn unol â hynny, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i reoliad 31(2) lle gellir gweld y dylai'r geiriad "at y diben hwnnw ... person o'r fath." fod wedi cael ei ddileu. Mae'r un pwynt yn codi yn y testun Saesneg.

Mae'r gwall hwn wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog priodol a gellir ei gywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

4 Mawrth 2003